# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Casmael

**Neuadd yr Ysgol
Ysgol Casmael
Casmael
Hwlffordd
Sir Benfro
SA62 5RL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Casmael

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Casmael |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Brenda Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Kate Williams |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:30yb - 12:00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 10 Gorffennaf 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 24 Tachwedd 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 13/06/2022 |
| Penodwyd arweinydd y lleoliad i'w rôl arwain ym mis Ionawr 2022.<br>Ychydig o blant sydd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. | |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r PC/UC roddi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant

A2 Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr am y prosesau yn unol â'r fframwaith anghenion dysgu ychwanegol

A3 Datblygu'r defnydd o asesiadau ac arsylwadau er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus iawn o fewn eu hamgylchedd dysgu. Maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r gweithgareddau pwrpasol sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio yn dda gyda'u cyfoedion a'r ymarferwyr. Dangosant garedigrwydd a chyfeillgarwch tuag at ei gilydd.

Mae llawer o blant yn ymgartrefu yn syth ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Dangosa bron pob un plentyn hoffter tuag at eu hymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus pan yn gadael eu rhieni neu ofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol iawn gyda phlant eraill. Maent yn ofalgar tu hwnt o'u ffrindiau gan gofleidio ei gilydd pan maent wedi cwympo a chael dolur, a gwelir plant hefyd yn rhoi braich o amgylch ffrindiau pan yn darllen stori yn dawel.

Mae bron pob plentyn yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus gan ddewis gweithgareddau sydd yn eu sbarduno. Maent yn mwynhau cydweithio yn y gornel chwarae rôl gan ddefnyddio toes i wneud bisgedi a chacennau dychmygol. Mae llawer o'r plant yn cyfrannu eu syniadau am yr hyn maent yn mynd i wneud gan ddweud wrth ymarferwyr beth maent eisiau ddysgu am thema'r fferm. Mae bron pob plentyn yn hunan-gofrestru yn ddyddiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu eu dymuniadau a'u hoffterau yn hyderus gan fynegi pa ffrwythau maent yn hoffi a ble hoffent eistedd amser byrbryd. Mae bron pob plentyn yn dangos sgiliau gwrando arbennig o dda. Gwelir plant yn ymgynnull yn hynod o ofalus wrth gyrraedd a gadael y lleoliad ac ar adegau chwarae allan.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio am amser cynyddol, ac yn frwdfrydig iawn wrth chwarae byd bach gyda theganau fferm a hefyd wrth ddefnyddio adnoddau go iawn, megis grawnfwydydd, mwd, gwellt a phorfa wrth chwarae byd bach. Maent yn rhyngweithio yn arbennig o dda gyda phlant eraill gan rannu a chymryd tro wrth i blant ddefnyddio amserydd tywod ar adegau pan oeddent eisiau chwarae gyda'r un tegan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn helpu ei gilydd ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Er enghraifft wrth helpu eu ffrindiau i roi ffedog a het cogydd ymlaen i weithio fel cogydd yn y caffi. Wrth ddathlu llwyddiant, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymfalchïo yn hapus pan yn cael eu canmol gan yr ymarferwyr am eu gwaith peintio a thacluso da.

Mae tua hanner y plant yn datblygu medrau annibynnol yn dda. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau ysgogol wrth chwarae rôl a chwarae byd bach. Mae lleiafrif y plant yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach, gwisgo ffedog a rhoi eu heiddo ar y bachyn priodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, megis golchi dwylo a bwydo eu hunain amser byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd gan ddweud 'thank you' am gymorth gan ymarferwyr ac am eu bwydydd. Mae mwyafrif y plant yn dangos y gallu i ddefnyddio brwsh a phensil yn aeddfed wrth beintio mochyn ac enfys, ac eraill yn marcio ar fyrddau digidol yn ddeallus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Maent yn datblygu hyder wrth gymhwyso ystod o fedrau’n llwyddiannus yn eu chwarae naturiol, er enghraifft wrth baratoi te parti yn y caffi. Mae mwyafrif y plant yn cydweithio’n effeithiol wrth benderfynu ar fwydydd i’w coginio ac yn datblygu medrau rhifedd priodol wrth osod y bwrdd. Caiff offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) eu defnyddio yn annibynnol fel rhan naturiol o’u chwarae yn y caffi, er enghraifft defnydd o’r ffôn, til a thostiwr.

Mae llawer o blant yn cyfathrebu’n bwrpasol â’i gilydd wrth chwarae a rhyngweithio’n gymdeithasol, er enghraifft, wrth ddwyn i gof profiadau o chwilota am drychfilod ar eu hymweliad â Chastell Picton yn ddiweddar.  Fodd bynnag, lleiafrif y plant sy’n hyderus wrth ddefnyddio’r Gymraeg yn ddigymell yn eu chwarae. Mae bron bob un yn gwrando'n astud a dilyn cyfarwyddiadau’n dda iawn ac yn ymateb yn synhwyrol i stori a ddarllenir iddynt. Maent yn mynegi eu teimladau ac emosiynau’n dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno â rhigymau a chaneuon cyfarwydd yn effeithiol, ac mae’r mwyafrif yn ymgysylltu â llyfrau o’u dewis ac eistedd gyda’i gilydd amser byrbryd gan drafod gydag oedolyn yn hyderus. Mae lleiafrif o blant yn adnabod eu henwau wrth gofrestru yn y bore. Mae mwyafrif y plant yn defnyddio offer yn addas i ddarlunio a gwneud marciau cynnar.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau corfforol yn fedrus. Maent yn defnyddio cyfarpar mawr yn effeithiol, er enghraifft wrth fynd ar y beiciau a phedlo ar y tractorau mawr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau mudol mân cadarn, er enghraifft maent yn defnyddio brwshys paent ac yn torri toes yn dda wrth ddefnyddio cyfarpar briodol. Maent hefyd yn newid cewyn a dillad y ddol yn y caffi.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol pwrpasol yn eu chwarae digymell, er enghraifft wrth rifo cacennau bach yn y toes ac wrth ddisgrifio maint cynffon madfall yng Nghastell Picton. Maent yn medru adrodd rhifau hyd at 10 yn hyderus yn eu chwarae, gyda lleiafrif y plant hŷn yn cyfrif hyd at 20. Mae rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn ystod o rigymau rhif yn llwyddiannus iawn.

Mae rhan fwyaf y plant yn mynegi eu hunain yn dda drwy gerddoriaeth. Maent yn hyderus wrth beintio llun mochyn ar y fferm. Fodd bynnag, cyfyngedig iawn yw'r dewis i blant ehangu eu medrau creadigrwydd drwy or ddefnydd o dempledi, a diffyg cyfleoedd i blant allu gwneud dewisiadau a datblygu hyder creadigol. Mae lleiafrif y plant yn dangos dyfalbarhad cadarn wrth wynebu heriau, er enghraifft wrth dacluso blociau a’r angen i ail drefnu’r darnau er mwyn iddynt ffitio yn y cwpwrdd.

**Gofal a datblygiad:**

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau, hoffderau a'u gofynion personol. Gwelir ymarferwyr yn gadael i blant ddewis a dethol adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan. Mae bron pob un o’r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant trwy gynllunio tasgau a gweithgareddau yn unol â’u diddordebau ac yn cynorthwyo’r plant i ddatrys rhai problemau. Maent yn ymyrryd trwy gwestiynu ac ehangu geirfa Cymraeg y plant yn briodol pan mae cyfleoedd i wneud hynny. Maent yn cyfathrebu

yn effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roddi clod gan ddweud "Da iawn" wrth blentyn wrth gyfri hyd at 10 yn annibynnol. Mae pob ymarferwr yn annog y plant i ddysgu am draddodiadau Cymreig megis Diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant fod yn annibynnol trwy ddewis 'helpwr y dydd' sydd â'r cyfrifoldeb o dorri ffrwythau ar gyfer y plant eraill. Er hyn, mae cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau annibynnol y plant yn gyfyngedig.

Mae bron pob ymarferydd yn darparu cefnogaeth dda i blant i ddatblygu dealltwriaeth am eu hemosiynau. Maent yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at blant wrth iddynt gyrraedd pob bore ac yn trafod eu teimladau yn ystod amser cylch. Mae ymarferwyr yn cynnig ystod eang o weithgareddau a phrofiadau sydd yn datblygu gallu'r plant yn briodol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn hollol gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn fodelau rôl cadarnhaol. Maent yn sicrhau bod plant yn deall bod angen bod yn ofalus tu allan wrth iddynt ddringo'r borfa serth a rhoddir clôd i blant am ddilyn y cyfarwyddid yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio yn agos i ddiwallu anghenion y plant. Maent yn cydweithio gyda rhieni a gofalwyr er mwyn datblygu a chefnogi plant yn emosiynol, cymdeithasol ac yn ddatblygiadol. Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr ddealltwriaeth am anghenion dysgu ychwanegol y plant. Er hyn, nid oedd yw'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r fframwaith mwyaf diweddar ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a maent yn ansicr am y trefniadau ar gyfer codi pryderon am ddatblygiad y plant.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan bron pob ymarferydd ddealltwriaeth da iawn am weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbwl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg effeithlon ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn i sicrhau goruchwyliaeth ofalus ac iechyd a diogelwch y plant. Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn llwyddiannus trwy ddarparu byrbryd iachus a maethlon. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau a digwyddiadau gan gynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn gwneud cynnydd priodol tuag at ddatblygu cynllunio sy'n ymateb i ddiddordeb a llais y plant. O ganlyniad, maent yn galluogi plant i ymgymryd ag ystod o brofiadau chwarae a dysgu buddiol sy'n ennyn eu chwilfrydedd mewn modd holistig. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn datblygu eu medrau rhifedd ac echddygol manwl yn fedrus i lenwi bwced y jac codi baw gyda hadau ac i enwi a chymharu maint anifeiliaid yn ardal y fferm. Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn amserol yn chwarae'r plant i ymestyn ac i gefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Enghraifft dda yw ymarferydd yn annog plentyn i ddewis offer marcio gwahanol, ond wrth i'r plentyn barhau i farcio, ymuno â hi i fodelu marciau a darluniau ar declyn arall a chynnal sgwrs. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddioli i blant ddysgu sut i drin pethau byw â gofal drwy ymweliadau pwrpasol â Scolton Manor a Chastell Picton.

Un o brif gryfderau'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd ardderchog mae ymarferwyr yn gynnig i ddatblygu medrau cymdeithasol y plant ac i feithrin tegwch a pharch at eraill. O ganlyniad, mae'r plant yn naturiol ofalgar am eraill ac yn reddfol gysuro ei gilydd pan fydd angen. Maent yn diolch i'w gilydd yn garedig heb arweiniad gan oedolion, er

enghraifft wrth chwarae yn yr ardal toes ac wrth rannu teclynnau i wneud cacennau bach i’r parti.

Mae ymarferwyr yn fedrus wrth ddatblygu dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd rheoli ymddygiad. Maent yn defnyddio storïau sy’n amlygu pwysigrwydd hunan ddisgyblaeth yn effeithiol. Maent hefyd yn defnyddio’r amserydd tywod er mwyn helpu’r plant i ddeall pwysigrwydd cymryd tro. Enghraifft dda o hyn yw plentyn yn ymestyn amserydd tywod yn annibynnol er mwyn cyfaddawdu ac egluro mai ei thro hi yw hi nesaf i chwarae â’r car rheoledig. Mae ymarferwyr yn annog plant yn dda iawn i ddangos parch tuag at gyfarpar. Er enghraifft pan mae plentyn yn annog ei ffrind i ymddwyn yn gwrtais yn y caffi ac i beidio â cham ddefnyddio platiau a chwpanau, gan holi’r cwestiwn “Ble mae dy faners?”

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn o ddatblygiad plant, ac maent yn cefnogi plant sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol yn dda drwy gyfleoedd i ganu caneuon a rhigymau. Maent yn defnyddio’r Gymraeg yn rheolaidd yn unol â’u hyder eu hunain. Er enghraifft maent yn datblygu geirfa plant wrth adeiladu â blociau i sain rhigwm rhif. Maent yn cynnig cyfleoedd gwych i blant ymgolli mewn llyfrau ac mae amrediad eang o lyfrau sy'n yr amgylchedd iddynt eu mwynhau. Caiff y plant gyfleoedd defnyddiol i ddatblygu medrau marcio yn yr ardal fewnol.

Mae ymarferwyr yn dechrau gwneud defnydd addas o arsylwadau ac asesu datblygiad plant. Maent yn cydweithio’n effeithiol â rhieni a gofalwyr i gasglu gwybodaeth am y plant drwy broffiliau un tudalen. Fodd bynnag, nid yw’r system arsylwadau ac asesu wedi ei wreiddio a’i ddefnyddio i fwydo camau nesaf yn dysgu’r plant.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd croesawgar, diogel a deniadol sydd yn sbarduno'r chwarae yn llwyddiannus. Mae’r ardaloedd dysgu a chwarae yn ennyn diddordebau'r plant yn dda ac yn galluogi i blant ddarganfod ac archwilio yn fewnol ac allanol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau ardaloedd mewnol ac allanol sy’n cynnig cyfleoedd i blant ddatblygu medrau corfforol, ieithyddol, mathemategol, modur man, cymdeithasol a moesol. Er enghraifft ceir adnoddau sy’n cynnig profiadau aml-synhwyraidd i blant, a gofod mawr i blant allu defnyddio beiciau, tractorau, chwarae tywod, offer peintio ac i ddefnyddio chyfarpar ymarfer corff.

Mae arddangosfeydd lliwgar yn ogystal â gwaith crefft a ffotograffau'r plant yn cael ei werthfawrogi a'i ddathlu sydd yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Labelir adnoddau sydd ar lefel y plant yn bwrpasol a sbardunol er mwyn rhoi cyfleoedd i blant i ddewis a dethol adnoddau yn ôl eu diddordebau personol.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol yn effeithiol. Mae modd i blant ymgynnull ar gyfer byrbrydau ar gelfi sydd yn addas i'w hoedrannau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus tra bod plant yn defnyddio’r ty bach. Yn ogystal, mae darpariaeth da ar gyfer amser tawel yn yr ardaloedd tu fewn. Darperir adnoddau sydd yn rhoi cyfleoedd arbennig i blant ddatblygu dealltwriaeth am bobl yn y gymuned ehangach, er enghraifft doliau, pypedau a storiau amlgyfrwng. Mae'r ddarpariaeth o adnoddau yn cynnwys dillad gwisgo lan yn y gornel chwarae rôl; creonau, adnoddau crefft a phaent; yn ogystal â

bocsys o offer adeiladu, chwarae byd bach ac adnoddau naturiol go iawn. Mae'r ymarferwyr yn darparu cerddoriaeth Cymreig i ddatblygu iaith ac i greu awyrgylch hapus a chyfeillgar yn ystod sesiynau byrbryd a chwarae.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Er bod y person â gofal yn newydd i'w rôl, mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth, ac mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r person cofrestredig. Mae'r person â gofal yn llwyddo i greu ethos positif a chartrefol iawn, lle mae plant ag ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad. Mae'r arweinydd yn deall pwysigrwydd cyd-weithio a chymryd cyngor gan asiantaethau a gan athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol. Mae pob ymarferydd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn cydweithio'n ardderchog fel tîm i ddarparu amgylchedd ysgogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar les y plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi sefydlu perthynas gref a chefnogol â rhieni a gofalwyr. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn gallu rhannu gwybodaeth am eu plentyn gydag ymarferwyr, ac maent yn gwerthfawrogi'r adborth rheolaidd y maent yn ei gael drwy gyfryngau cymdeithasol am fywyd a gwaith y lleoliad.

Mae arweinwyr wedi sefydlu proses addas o hunanwerthuso sy'n bwydo cynlluniau datblygu tymhorol. Mae'r cynlluniau yma'n adnabod cryfderau'r lleoliad ac unrhyw feysydd i'w datblygu. Mae'r lleoliad yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at newid ac yn barod i addasu ei addysgeg a defnyddio'r wybodaeth yn unol â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir er mwyn addasu'r ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn dyrannu elfennau o gyllid grantiau yn bwrpasol sy'n arwain ar welliannau mewn ansawdd gofal, chwarae a dysgu'r plant. Ceir ystod fuddiol o adnoddau y mae arweinwyr ac ymarferwyr yn eu datblygu'n barhaus i sicrhau bod plant yn cael eu hysgogi a'u cyffroi gan eu hamgylchedd dysgu. Mae prosesau recriwtio trylwyr yn eu lle a'r ymarferwyr wedi derbyn gwiriadau gwahardd troseddol. Er hyn, nid oedd tystysgrif y person gofrestredig wedi ei ddiweddaru, ond mae camau wedi'u cymryd yn barod i gyflawni hyn. Nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod digon o ymarferwyr yn bresennol sydd yn meddu ar gymhwyster cymorth cyntaf priodol. Nid ydynt ychwaith wedi sicrhau bod y person â gofal yn meddu ar y cymhwyster angenrheidiol ond mae hynny ar waith. Caiff ymarferwyr ystod ddigonol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i'w cynorthwyo yn eu rolau. Mae arweinwyr yn cynnal sesiynau goruchwylio buddiol gyda'r ymarferwyr, sy'n rhoi cyfle iddynt drafod eu hanghenion datblygiad unigol.

Mae cysylltiadau ardderchog yn bodoli rhwng y lleoliad â'r ysgol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n hynod agos gyda nhw i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n arbennig o lwyddiannus, ac yn symud yn hyderus i'r cam nesaf o'u haddysg. Mae rhieni yn teimlo bod eu plant wedi gwneud cynnydd cryf a theimlant bod ymarferwyr yn garedig a pharchus tuag at y plant a'u rhieni. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn ddyddiol er mwyn diwallu eu hanghenion a rhannu eu profiadau.

Rhennir datganiad o ddiben wedi'i ddiffinio'n glir sy'n rhoi darlun cywir i rieni o'r hyn mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae holiaduron i rieni a thrafodaethau â rhieni a gofalwyr yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau bod arweinwyr yn ymateb i unrhyw faterion yn brydlon. Mae'r rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gofal unigol ac arbenigol sy'n cael ei ddarparu ar gyfer eu plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2022

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 20 | Nid yw'r person cofrestredig wedi sicrhau bod ei GDG wedi'i ddiweddaru yn unol â rheoliad. | Newydd |
| 27 | Mae'r person cofrestredig wedi sicrhau bod y staff yn ymarferwyr gofal plant cymwys ond nid oes digon o staff gyda chymwysterau lefel 3 a chymorth cyntaf yn y lleoliad. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15 Awst 2022